| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **31 Mai 2017** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Cynrychiolaeth ar Gyrff Allanol** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Penderfynu cynrychiolaeth y Cyngor ar Gyrff Allanol** |

**1) Rhagarweiniad**

Mae penodi Aelodau i wasanaethu ar gyrff allanol yn swyddogaeth Dewis Lleol o dan Reoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2001 fel y cawsant eu diwygio.

Mae Adran 5.7 o'r Cyfansoddiad - (Protocolau Rheolaeth Wleidyddol) - yn nodi'r trefniadau ar gyfer penodiadau i gyrff allanol.

Cyn yr etholiad ym Mai 2017, cynhaliodd swyddogion ymarferiad mewn ymgynghoriad gydag Arweinyddion y Grwpiau i adolygu'r rhestr o gyrff allanol.

Yn sylfaenol, mae dau gategori o benodiadau. Y categori cyntaf yw'r penodiadau a wneir gan y Cyngor (Atodiad 1 - mae rhai penodiadau yn cael eu gwneud ar sail cydbwysedd gwleidyddol a nodir hyn yn yr atodlen). Yr ail gategori yw penodiadau i gyrff allanol y mae'n rhaid bod yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith i wasanaethu arnynt - gwneir y penodiadau hyn gan yr Arweinydd dan awdurdod dirprwyedig. (Atodiad 2). Mae yna hefyd rolau eraill sy'n cynrychioli diddordebau a meysydd cyfrifoldebau penodol, megis y maes pobl ifanc. Disgrifir y rhain yn rolau Aelodau Hyrwyddol (a elwir weithiau yn Aelodau Arweiniol) ac fe'u rhestrir o dan y penodiadau a wneir gan yr Arweinydd. (Gweler Atodiad 2).

Fel arfer bydd y penodiad i gyrff allanol am gyfnod o bum mlynedd hyd at ddyddiad yr etholiad llywodraeth leol nesaf ym mis Mai 2022 ac yn amodol ar adolygiad blynyddol gan y Cyngor a'r Pwyllgor Gwaith [Gweler Adran 5.8.4.2 y Cyfansoddiad]. Bydd Aelodau yn nodi bod amlder y cyfarfodydd yn amrywio ac y cynhelir rhai cyfarfodydd o leiaf bob chwarter.

**2) Materion Eraill syn cael sylw yn yr adroddiad hwn**

**Cyrff Allanol Lleol:**

Mewn perthynas ag unrhyw gorff allanol y mae ei weithgareddau wedi eu cyfyngu i'r ward, bydd Cynghorydd(wyr) y ward berthnasol fel arfer yn cytuno a phenodi'r cynrychiolydd rhwng ei gilydd.

Mae'r protocol wardiau amlaelod a fabwysiadwyd gan y Cyngor ym Mawrth 2013, (sydd ar gael ar wefan y Cyngor) yn cynnwys arweiniad ar ymgysylltiad Aelodau gyda grwpiau cynrychiadol lleol e.e. cyfarfodydd cyngor cymuned, fforymau lleol ac ati

**Llywodraethwyr ysgolion**

Bydd cynrychiolwyr y Cyngor a benodwyd i gyrff llywodraethau ers 2013 yn parhau i wasanaethu arnynt hyd at 31 Awst 2017, gan gynnwys penodiadau i gyrff llywodraethu Cysgodol. Bydd penodiadau newydd yn dod i rym o 1 Medi, 2017 i gyd-fynd â'r flwyddyn ysgol. Bydd y Pennaeth Dysgu yn mynd i'r afael â'r mater hwn mewn ymgynghoriad gydag Arweinyddion Grŵp gan gadw mewn cof faint cyffredinol y Cyngor.

**Ymgynghori gyda'r Arweinydd a'r Arweinyddion Grŵp**

O ganlyniad i'r adolygiad hwn, ac yn unol â'r protocol rheolaeth wleidyddol, trafodir y rhestr sydd ynghlwm o gyrff allanol lle mae angen perderfyniad gan y Cyngor gyda'r Arweinydd a'r Arweinyddion Grŵp cyn i'r Cyngor ei chadarnhau yn ei gyfarfod a ohiriwyd ar 31 Mai.

**Trefniadau Adrodd**

Mae hwn yn faes y mae angen i'r Cyngor roi sylw iddo fel rhan o'i drefniadau llywodraethu. Mae rhai awdurdodau wedi sefydlu trefniadau i adrodd yn ffurfiol i'r Cyngor llawn neu i Bwyllgor Sgriwtini tra bod awdurdodau eraill yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth mewn adroddiadau blynyddol – fel sy'n digwydd yma ar hyn o bryd. Argymhellir y dylid gofyn i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ystyried y mater ac adrodd yn ôl i'r Cyngor.

## 1) Argymhellion

1. Bod y Cyngor yn penderfynu ar yr Aelod (au) a fydd yn ei gynrychioli ar y cyrff allanol a restrir yn Atodiad 1 yn unig.

2. Os bydd angen gwneud newidiadau yn y dyfodol i gynrychiolaeth y Cyngor ar gyrff allanol, bod awdurdod yn cael ei roi i'r Prif Weithredwr wneud hynny mewn ymgynghoriad gydag Arweinyddion y Grwpiau.

3. Mewn perthynas â chynrychiolaeth y Cyngor ar gyrff llywodraethu ysgolion, bod awdurdod yn cael ei roi i'r Pennaeth Dysgu wneud penodiadau o'r fath mewn ymgynghoriad gydag Arweinyddion y Grwpiau.

4. Bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ystyried y trefniadau adrodd ac yn gwneud argymhellion i'r Cyngor.

**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**
**18/05/17**